Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Gwernllwyn**

**Cartref Gofal Gwernllwyn**
**Heol Llandeilo, Cross Hands,**
**Llanelli,**
**SA14 6RD**

**This report is also available in English**

**Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

21/02/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Gofal Gwernllwyn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Gwernllwyn Leisure Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 41 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae pobl a'u teuluoedd yn hapus â'r gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn yn y gwasanaeth. Mae'r staff gofal yn dangos dealltwriaeth dda o anghenion gofal pob unigolyn ac maent yn barchus a gofalgar. Mae pobl a'u teuluoedd neu gynrychiolwyr yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ac yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i anghenion gofal a chymorth.

Rhoddir cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu mewn a'r tu allan i'r cartref, ond oherwydd y pandemig mae'r rhain yn gyfyngedig ar hyn o bryd.

Mae naws ac addurniadau cynnes a chartrefol yng Ngwernllwyn drwyddo draw ac mae wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac yn lân. Mae'r cartref yn gynnes a chyfforddus ac mae pobl yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel. Mae systemau ar waith i sicrhau bod y safle a'r offer yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol, ac eir i'r afael ag unrhyw faterion wrth iddynt godi.

Mae'r rheolwr a'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr unigolyn cyfrifol sy'n bresennol yn y cartref y rhan fwyaf o'r amser. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ceisio cynnal a gwella profiadau a llesiant y bobl sy'n byw yn y cartref.

## Llesiant

Mae gan bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywyd o ddydd i ddydd. Mae pobl yn cael cynnig dewisiadau ynglŷn â lle i dreulio eu hamser, beth maen nhw eisiau ei wneud a dewisiadau prydau bwyd. Mae gweithwyr gofal yn trin pobl â pharch ac mae eu barn yn bwysig. Mae gweithwyr gofal yn cynorthwyo pobl mewn ffordd ofalgar sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, e.e. defnyddio dewis iaith yr unigolyn.

Mae’r bobl yn cael eu gwarchod rhag niwed a chamdriniaeth. Mae gan weithwyr gofal wybodaeth dda o ran diogelu a phwysigrwydd adrodd am unrhyw ddigwyddiadau neu bryderon. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rôl wrth amddiffyn pobl rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Siaradodd gweithwyr gofal yn ofalgar am y bobl sy'n byw yn y cartref a sut mae pandemig COVID-19 wedi effeithio arnynt. Mae mesurau rheoli heintiau priodol ar waith ac mae staff yn deall yn glir beth yw eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran sut i reoli heintiau. Mae gweithwyr gofal wedi mynychu hyfforddiant rheoli heintiau. Mae gorsafoedd cyfarpar diogelu personol a chyfleusterau diheintio dwylo ym mhob rhan o'r gwasanaeth sy'n cael eu hailgyflenwi'n rheolaidd.

Mae gwelliant sylweddol o ran cofnodi gwybodaeth a'r dogfennau yn y cartref. Mae cofnodion gofal yn dangos bod nodiadau dyddiol yn fwy manwl, gyda gwybodaeth am faeth a'r cymorth/gofal a ddarperir. Mae'r rheolwr yn goruchwylio ac yn monitro cofnodion gofal. Mae'r holl ffeiliau unigol/cofnodion gofal yn cael eu harchwilio a'u hadolygu ar hyn o bryd i sicrhau eu bod yn gywir ac yn gyfredol.

Caiff hyfforddiant staff ei fonitro drwy'r system ffeiliau electronig. Mae rheolwyr yn cyrchu adroddiadau drwy'r system i sicrhau bod yr holl staff yn derbyn eu hyfforddiant o fewn yr amserlenni gofynnol er mwyn eu cynorthwyo yn eu rolau.

## Gofal a Chymorth

Mae'r wybodaeth sydd ei hangen i gynorthwyo pobl yn glir ac yn gyfredol. Caiff cynlluniau personol eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd ac mae ansawdd ac eglurder y wybodaeth wedi gwella ers ein hymweliad arolygu diwethaf. Adolygir y rhain yn unol â'r rheoliadau ac wrth i anghenion yr unigolyn newid.

Cwblheir cofnodion dyddiol ar gyfer pob unigolyn er mwyn hysbysu gweithwyr gofal a gweithwyr proffesiynol eraill am weithgareddau dyddiol yr unigolyn. Mae'r holl gofnodion dyddiol a wiriwyd wedi gwella o ran eglurder, ansawdd a manylder y wybodaeth sydd ynddynt.

Mae gan bobl ddewis a rheolaeth lle bo modd dros eu bywydau o ddydd i ddydd, e.e. dewis o ran ble yr hoffent dreulio eu hamser, beth i'w gael ar gyfer prydau bwyd, a phryd y maent yn dymuno codi a mynd i'r gwely.

Mae cynlluniau cyfredol ac asesiadau risg ar gyfer anghenion unigol pobl ar waith sy'n cynorthwyo pobl i fod mor annibynnol â phosibl. Mae'r rheolwyr yn asesu'r lefelau staffio yn rheolaidd i sicrhau bod lefel y gofal a ddarperir yn y cartref yn cael ei chynnal wrth i anghenion pobl newid.

Mae'r cartref yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae hyn yn golygu bod yn rhagweithiol wrth ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg, heb i bobl orfod gofyn amdano. Mae arwyddion dwyieithog ym mhob rhan o'r cartref. Gwelsom staff gofal yn siarad Cymraeg â phobl yn ystod ein harolygiad.

Mae gweithwyr gofal wedi cwblhau cyfnod sefydlu a rhaglen hyfforddi sy'n cwmpasu'r hyfforddiant gorfodol sydd ei angen i gyflawni eu dyletswyddau. Mae gan weithwyr gofal ddealltwriaeth glir o anghenion y bobl y maent yn eu cynorthwyo, a dangosant barch ac amynedd wrth ryngweithio â hwy. Mae awyrgylch hapus a hwyliog iawn yn y gwasanaeth gyda phobl yn cael hwyl â staff ac yn cael sgyrsiau cyffredinol bob dydd nad oeddent yn cael eu harwain gan dasg.

Dywedodd pobl wrthym *“Rwyf wrth fy modd yma, mae’r merched yn wych a gallaf ddewis beth rwyf eisiau ei wneud, rwy’n hoffi treulio amser yn fy ystafell ac maen nhw’n deall hyn”* ac *“mae’n wych yma, rydym ni’n cael eistedd a sgwrsio â’n gilydd ac mae’r merched (staff gofal) yn cael hwyl gyda ni”*

## Yr amgylchedd

Mae pobl yn byw mewn amgylchedd sy'n cynorthwyo eu hiechyd, eu diogelwch, eu diogeled a'u llesiant.
Mae'r gwasanaeth yn lân, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac yn gartrefol. Mae arferion glanhau yn y cartref wedi newid er mwyn ystyried mesurau glanhau ychwanegol oherwydd COVID-19. Mae gwiriadau cynnal a chadw, gan gynnwys offer symud a thrin a phrofion diogelwch tân, yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol.

Mae arferion rheoli heintiau yn y cartref yn dda iawn ac mae cyfleusterau diheintio dwylo ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol a rheolwyr wedi rhoi mesurau ar waith i leihau'r risg o COVID-19 yn dod i mewn i'r cartref. Mae'r unigolyn cyfrifol, y rheolwr a'r holl staff y gwnaethom siarad â nhw yn dangos eu hymrwymiad i arferion da o ran rheoli heintiau.

Mae ystod o opsiynau i alluogi pobl i gymdeithasu, gan gynnwys ali fowlio a chaffi, ystafell ddawns/tafarn, siop trin gwallt a siop. Mae'r gwaith adeiladu ar gyfer y cyfleusterau hyn wedi'i gwblhau i safon uchel. Bydd y rhain yn hygyrch i unigolion a'u teuluoedd eu defnyddio. Mae'r gwasanaeth yn edrych ymlaen at allu defnyddio'r holl gyfleusterau gyda'r teuluoedd unwaith y bydd y pandemig yn caniatáu hyn. Mae cynlluniau i adeiladu estyniad ar gefn yr adeilad ar gyfer llety ychwanegol.

Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant diogelwch tân. Mae gwybodaeth wedi'i harddangos yn egluro beth i'w wneud pe bai tân; pwy yw'r swyddogion tân, ac mae'r dogfennau gofynnol ar gyfer y gwasanaeth tân yn hawdd eu cyrchu pe bai tân.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau ar waith sy'n helpu i sicrhau goruchwyliaeth dda o'r gwasanaeth yn ogystal â datblygiad parhaus.  Cadarnhaodd y rheolwr a'r dirprwy reolwr fod yr unigolyn cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd, a'i fod yn gefnogol o'r rheolwyr a'r staff gofal. Mae'r unigolyn cyfrifol hefyd yn mynd â phobl i apwyntiadau ac yn gweithio shifftiau yn y cartref; dywedodd y bobl wrthym eu bod wrth eu bodd a gallem weld y wybodaeth a'r berthynas waith dda sydd gan yr unigolyn cyfrifol â phawb.

Dywedodd y staff wrthym *“Mae'r unigolyn cyfrifol, y rheolwr a'r dirprwy reolwr bob amser ar gael yn ddi-ffael, hyd yn oed pan nad ydynt yn y cartref yn gorfforol mae modd cysylltu â nhw dros y ffôn”. “Mae’n hawdd siarad â nhw, maen nhw’n gwrando ac yn gweithredu ar yr hyn y mae angen ei wneud. Maen nhw'n wych, galla i fynd atyn nhw yn ddi-ffael ac maen nhw'n gefnogol”* ac *“mae'r rheolwr newydd wedi bod yn wych, pan ddechreuodd hi roedd hi’n gweithio ar y llawr gyda ni er mwyn dod i adnabod pawb. Mae pob un o'r rheolwyr yn gweithio ac yn gwneud yn union yr hyn rydyn ni'n ei wneud pan fo angen felly rydyn ni'n dîm”.*

Mae staff gofal yn cael cyfnod sefydlu a hyfforddiant i'w galluogi i ddarparu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae hyfforddiant yn cael ei fonitro drwy adroddiadau goruchwylio ac archwilio a dderbynnir gan reolwyr.  Mae hyn yn sicrhau bod gan staff gofal y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i ddarparu'r gofal sydd ei angen.

Cynhaliwyd archwiliadau rheolaidd dros y chwe mis diwethaf, gan gynnwys ym maes iechyd a diogelwch, meddyginiaeth, cynnal a chadw adeiladau, offer ac ati.

Mae'r bobl sy'n byw yng  Ngwernllwyn ynghlwm wrth redeg y cartref. Maent yn cael cyfle a dewis i roi adborth ar sut brofiad yw'r cymorth yn y cartref yn eu barn nhw a'r pethau yr hoffent eu gwella. Defnyddir y wybodaeth hon yn yr adroddiadau a gwblhawyd gan yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr i lywio meysydd i'w gwella.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| 21 | Nid yw ffeiliau gofal unigol yn cael eu cwblhau'n gywir a chyfredol gyda'r wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi anghenion gofal unigol yn gyson. | Cyflawnwyd |
| 15 | Nid oedd cynlluniau personol a chofnodion cymeriant maethol bob amser yn cael eu cwblhau'n llawn, yn gywir ac yn gyfredol. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad cyhoeddi** 15/03/2022'